

## Cofnodion cyfarfod 1/10/2020

**Presennol:** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Rhys Evans, Sue Davies, Dilys Evans, Tony Parry, Alun Price, Carol Rowlands, John Caradog Williams, Cynghorydd Dilwyn Morgan (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc).

1. Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, mynegodd y Maer longyfarchiadau tref Y Bala i'r Clwb Pêl Droed ar eu hymgyrch lew yn Ewrop. Derbyniwyd ymddiheuriadau Ivora Jones ac Eluned Jones.
2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.
3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Medi 3<sup>ydd</sup> 2020.
4. **Materion y Clerc:**
  - i. Sedd Wag: Os na fydd cais am gynnal etholiad erbyn 2/10/20, fe fydd y Clerc yn gwahodd enwebiadau i'r Cynghorwyr ddewis person yn y cyfarfod nesaf i lenwi'r sedd wag.
  - ii. HistoryPoints: Adroddodd Alun Price iddo gael sgwrs gyda Rhodri Clark, History Points ar y posibilrwydd i osod QR yn ymyl y gofgolofn. Mae Mr Clark yn cynnig gwneud y gwaith ymchwil er mwyn dod o hyd i fwy o wybodaeth am y milwyr a syrthiodd trwy ddefnyddio'r QR. Cytunodd y Cyngor i gefnogi hyn yn dilyn trafodaeth gyda'r Lleng Brydeinig.
  - iii. Cyfyngiad 40mya yn Llanycil - derbyniwyd ymateb gan Asiantaeth y Cefnffyrdd yn mynegi fod y mater wedi ei drosglwyddo i sylw Llywodraeth Cymru. Cytunwyd i anfon at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt hwythau i bwysu ar Lywodraeth Cymru i wneud yr ardal hon o'r A4949 yn fwy diogel. Yn yr un llythyr, dywedodd Merfyn Morris y bydd gwaith yn cael ei wneud yn fuan ar balmentydd mewn ardal benodol o'r dref, a bod cais wedi ei wneud i Lywodraeth Cymru am gyllid i roi wyneb newydd ar hyd palmentydd y Stryd Fawr. Dywedwyd hefyd fod yr Asiantaeth wedi cysylltu gydag Adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd parthed a beiciau modur yn creu rhwystr wrth gofgolofn Tom Ellis.
  - iv. Cais am gyfarfod adborth gyda Pharc Cenedlaethol Eryri: ni chafwyd ymateb pendant, ond deallwyd gan y Cynghorydd Dilwyn Morgan fod Cyngor Gwynedd mewn trafodaethau gyda'r Parc a fydd yn cynnwys trafodaethau ar godi tâl ar ddringo'r Wyddfa, rheolaeth traffig a threth twristiaeth.
5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd, yn cynnwys adroddiad ar y cais am barc sglefrio. Dywedodd ei fod wedi derbyn sylwadau negatif am barciau sglefrio o ardaloedd eraill ond ei fod yn parhau i edrych mewn i'r mater. Mae llinellau melyn Heol Aran yn parhau dan drafodaeth. Derbyniwyd cwynion gan aelodau o'r cyhoedd am oryrru yn Heol Tegid ac mae hyn yn derbyn sylw'r Cyngor. Diolchodd John Caradog Williams iddo am sicrhau y bydd ffens i rwystro plant yn chwarae ar draws rhai gerddi yng Nghysgod y Coleg. Mae goryrru lawr rhiw'r Coleg yn bryder i'r Cyngor, ac yn fwy fyth oherwydd y cynnydd yn y traffig ers

sefydlu Ysgol Godre'r Berwyn. Cytunwyd i anfon at Dylan Wyn Jones, Cyngor Gwynedd, i ofyn am 20mya yn yr ardal hon. Adroddodd y Cynghorydd fod Cyngor Gwynedd wedi cefnogi cais Cyngor Tref Nefyn am newid deddfau cynllunio i atal y twf mewn tai gwyliau. Tynnwyd sylw'r Cynghorydd at y llanast sydd yn cael ei adael gan breswylwyr Campervans sydd yn parcio ar y ffordd wrth ochr y llyn. Dywedodd fod lefelau Covid 19 yn isel yn ardal Y Bala ar hyn o bryd; efallai bydd angen mesurau arbennig i ddinas Bangor yn y dyfodol.

6. **Cyfoeth Naturiol Cymru:** Derbyniwyd adroddiad Tony Parry a ddywedodd mai yn ystod yr haf nesaf y disgwylir i'r gwaith gychwyn ar lan llyn Tegid. Rhannwyd y lansiad LIFE ar lein sydd yn rhan o brosiect gwarchod ac adfywio'r afon Ddyfrdwy o'r Bala at Langollen.

7. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiad Rhys Evans, Carol Rowlands ac Alun Price o'r Is-bwyllgor Nadolig. Cafwyd cyfarfod gyda'r Clwb Rotari sy'n awyddus i oleuo'r dref ar gyfer Nadolig 2021. Cytunwyd ei bod yn bosib gwario'r cyllid a neilltuwyd yn y Gyllideb eleni yn y flwyddyn ariannol nesaf. Cytunwyd i roi'r hawl i'r is-bwyllgor wario ar oleuadau di-drydan eleni. Derbyniwyd neges Un Llais Cymru yn atgoffa Cyngorau i beidio bod yng nghlwm a threfniadau torfol. Cytunwyd i gynnig gwobrau addurno tu fewn i ffenest siop /busnes fel arfer, ac i gynnig gwobr am addurniadau tu allan i'r siop/busnes yn ogystal. Bydd y Clerc yn gohebu gydag ysgrifennydd y Grŵp Busnes.

8. **Parc Cenedlaethol Eryri : Materion Cynllunio:** Dim. **Ymgynghoriad Cyhoeddus:** Nodwyd derbyn Canllaw Cynllunio Atodol Drafft CCA5: Ymrwymadau Cynllunio

#### 9. Materion Cyllid:

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.
- ii. Cytunwyd i dalu am lanhau'r llochesi (£200) a chyflog y Clerc.

#### 10. Gohebiaeth:

- i. **Cyngor Tref Nefyn** – cytunwyd i gefnogi cais am gefnogaeth i ofyn i Gyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru roi mesurau mewn bodolaeth a fyddai'n atal tai rhag mynd o afael pobl leol.
- ii. **Awel y Coleg** – rhannwyd gwybodaeth fod fflatiau ar gael ar hyn o bryd.
- iii. **Llywodraeth Cymru:** Rhannwyd gwybodaeth am app Covid19 sydd ar gael yn y Gymraeg os dymunir
- iv. **Cais am gefnogaeth:** Ffordd werdd rhwng Y Bala â Llandrillo /Corwen. Cafwyd trafodaeth lawn a chyflwynwyd sylwadau nifer o drigolion. Cytunwyd yn unfrydol i wrthod rhoi cefnogaeth, a hynny'n gadarn iawn.
- v. **Arolwg:** Effaith Covid ar y Gymraeg - rhannwyd gwybodaeth am yr holiadur.

11. **Partneriaeth Penllyn:** Derbyn adroddiad Alun Price (Cadeirydd) a fynegodd fod swyddfeydd newydd ar gael i'w rhentu. Mae Canolfan Henblas yn adeilad Covid-ddiogel. Mae wi-fi am ddim Y Bala bellach yn weithredol yn y Stryd Fawr.

12. **Asedau'r Cyngor:** Derbyniwyd adroddiad Carol Rowlands a fynegodd bod cyflwr yr asedau'n dda iawn. Diolchwyd i John Caradog Williams am wirfoddoli i lanhau'r Gofeb Goffa unwaith eto eleni. Fe gytunodd hefyd i dynnu'r baneri cyn y tywydd garw.

13. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref:** Hyd nes y derbynir mwy o fanylion, fe gytunwyd mewn egwyddor i gefnogi trefnwyr lleol sy'n dymuno cynnal triathlon y flwyddyn nesaf.
14. **Dyddiad a lleoliad** y cyfarfod nesaf: 5/11/20 M 7.00 pm (trwy gyfrwng Starleaf)